# Cerdyn Darganfod Pobl y Pasg



Jwdas

# Cerdyn Darganfod Pobl y Pasg

## Jwdas



**Gwybodaeth Gefndirol**

- Roedd Jwdas Iscariot yn un o ddisgyblion Iesu.
- Jwdas oedd yn gyfrifol am drin arian y disgyblion.



**Beth Ddigwyddodd**

- Penderfynodd Jwdas ddweud wrth y Phariseaid (arweinwyr y Deml) a Caiaffas (yr archoffeiriad) ble fyddai Iesu, er mwyn iddyn nhw allu ei arestio.
- Cytunodd y Phariseaid a Caiaffas i dalu tri deg darn arian i Jwdas am eu helpu. Dyma faint fyddai'n ei gostio i brynu caethwas cyffredin.
- Yn y Swper Olaf dywedodd Iesu y byddai un o'r disgyblion, oedd yn eistedd yno wrth y bwrdd, yn ei fradychu. Roedd yn gwybod fod Jwdas yn bwriadu gwneud hynny.
- Arweiniodd Jwdas dyrfa o'r prif offeiriaid a swyddogion diogelwch y Deml i Ardd Gethsemane, lle roedd yn gwybod fod Iesu'n gweddïo. Aeth at Iesu a'i gyfarch â chusan, oedd yn arwydd i'r milwyr mai Iesu oedd y dyn roedden nhw i'w arestio.
- Ar ôl i Iesu gael ei ddedfrydu i farwolaeth sylweddolodd Jwdas beth fyddai canlyniadau yr hyn wnaeth, a cheisiodd fynd â'r arian yn ôl i'r arweinwyr crefyddol. Roedden nhw'n gwrthod ei dderbyn ac felly dyma Jwdas, oedd yn edifar am beth wnaeth, yn mynd ac yn lladd ei hun.




**Diffiniad**

- Bradychu: Bradychu rhywun ydy bod yn anffyddlon iddyn nhw pan maen nhw'n ymddiried ynoch chi, a gall arwain at siom, teimladau drwg a hyd yn oed berygl.




**Beth Allwn ei Ddysgu**

- Roedd Iesu wedi dysgu ei ddilynwyr i roi pobl eraill gyntaf ac i garu ei gilydd gymaint ag roedden nhw'n caru eu hunain. Dewisodd Jwdas arian yn hytrach na chyfeillgarwch ac roedd yn difaru ei benderfyniad.



**Ystyried**

- Wyt ti'n gallu disgrifio amser pan wnest ti drystio rhywun ac fe wnaethon nhw dy siomi di?
- Sut all bod yn farus am arian neu geisio sylw neu bethau eraill frifo pobl?
- Ym mha ffyrdd wyt ti'n meddwl y gallet ti roi pobl eraill gyntaf?